**Rhif: WG39703**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymateb

# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

## Canllawiau statudol mewn perthynas â Rhan 7 y Ddeddf – diogelu plant rhag camfanteisio'n rhywiol ar blant

Chwefror 2020

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80038-170-4

| <u>**Cynnwys**</u> | **Tudalen** |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **2** |
| **Ymgysylltu cyn ymgynghori** | **4** |
| **Datblygu'r ddogfen** | **5** |
| **Ymatebion i Gwestiynau'r Ymgynghoriad** | **6** |
| **Dadansoddiad Llywodraeth Cymru** | **16** |
| **Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr** | **17** |

## 1. Cyflwyniad

Cafodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Ddeddf") Gydsyniad Brenhinol ar 1 Mai 2014. Mae'r Ddeddf yn sail i fframwaith statudol newydd ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru.

O'r cychwyn cyntaf, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i weithio gyda phobl er mwyn helpu i siapio'r is-ddeddfwriaeth, cynorthwyo i'w rhoi ar waith, a chyflawni'r newid o ran diwylliant ac arferion a ysgogir trwy'r Ddeddf.

Cynhaliwyd ymgynghoriad yn ymwneud â'r cynigion i Weithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 7 – diogelu plant rhag camfanteisio'n rhywiol ar blant. Bu'r ymgynghoriad hwnnw ar waith rhwng 15 Gorffennaf a 7 Hydref 2019.

Mae **Cyfrol 7: Diogelu Plant rhag Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant** yn cyflwyno cyngor yn ymwneud â deall camfanteisio'n rhywiol ar blant fel ffurf o gam-drin plant yn rhywiol; atal camfanteisio'n rhywiol ar blant; ymateb i blant sydd mewn perygl o ddioddef camfanteisio'n rhywiol ar blant trwy weithdrefnau diogelu; ymateb i anghenion gofal a chymorth plant sydd wedi'u cam-drin trwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant; tarfu ar gyflawnwyr a'u herlyn, a chynorthwyo'r rhai sydd wedi dioddef camfanteisio'n rhywiol ar blant.

Mae'r canllawiau diweddaraf yn nodi tystiolaeth a chyngor yn ymwneud â'r ffyrdd y dylai asiantaethau ac ymarferwyr weithio gyda'i gilydd i atal camfanteisio'n rhywiol ar blant, ac ymateb i blant sydd mewn perygl o ddioddef camfanteisio'n rhywiol ar blant neu sy'n cael eu cam-drin trwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant, mewn perthynas â dyletswyddau diogelu dan y Ddeddf.

Datblygwyd y ddogfen gyda Grŵp Cynghori amlasiantaethol dan gadeiryddiaeth Dr Sophie Hallett, Prifysgol Caerdydd.

Cafodd y ddogfen ei llywio gan adolygiad o'r polisïau presennol (a gyhoeddwyd yn 2011) a gweithredu ar draws Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2017. Yn 2018, cynhaliwyd ymgynghoriadau ar raddfa fach gyda phlant a phobl ifanc a oedd wedi cael cymorth oherwydd materion diogelu, ac mae casgliadau'r gwaith hwn hefyd wedi llywio'r ddogfen.

Yn ogystal â bod ar gael i'r cyhoedd yn ehangach ar dudalennau rhyngrwyd Llywodraeth Cymru, cafodd yr ymgynghoriad ei ddosbarthu i grwpiau rhanddeiliaid allweddol, yn cynnwys:

- Byrddau Diogelu yng Nghymru
- Comisiynydd Plant Cymru
- Sefydliadau'r Trydydd Sector
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Plant yng Nghymru
- Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

- Y Grŵp Diogelu Addysg
- Iechyd Cyhoeddus Cymru / Rhwydwaith Diogelu GIG Cymru

## 2. Ymgysylltu cyn ymgynghori

### 2.1 Adolygiad o bolisïau ac arferion yng Nghymru i ddiogelu plant rhag cam-drin plant yn rhywiol

Ym mis Ionawr 2017, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad o Ganllawiau Statudol Cymru ar Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc rhag Camfanteisio Rhywiol, y diffiniad sefydledig a phrotocol cysylltiedig Fframwaith Asesu’r Risg o Gamfanteisio Rhywiol (SERAF). Nod yr adolygiad oedd deall sut roedd y canllawiau statudol a gyhoeddwyd yn 2011 a’r Protocol Cymru Gyfan a gyhoeddwyd yn 2009 gan Grŵp Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan yn gweithio’n ymarferol, a nodi ffyrdd y gellid eu gwella er mwyn sicrhau eu bod yn addas i’r diben.

Roedd yr adolygiad yn cynnwys adolygiad llenyddiaeth yn ogystal â grwpiau ffocws a chyfweliadau gyda rhanddeiliaid proffesiynol a oedd yn gweithio ar draws y meysydd allweddol, sef iechyd, plismona, addysg, y trydydd sector a gofal cymdeithasol, gan gynnwys rhai a oedd yn gweithio ar lefel uwch ac ar y rheng flaen.

Argymhelliad cyffredinol yr adolygiad oedd y dylai canllawiau Cymru, y diffiniad sefydledig a phrotocol SERAF gael eu diweddaru i adlewyrchu’r wybodaeth sydd wedi dod i’r amlwg ers iddynt gael eu llunio, ynghyd ag unrhyw ddatblygiadau o ran arferion a gweithio amlasiantaethol, fel y gellir atgynhyrchu’r rhain ar draws holl ardaloedd Cymru.

https://llyw.cymru/adolygu-canllawiau-statudol-cymru-ar-amddiffyn-plant-phobl-ifanc-rhag-camfanteisio-rhywiol

### 2.2 Ymgynghori â phlant a phobl ifanc

Yn 2018, aeth Llywodraeth Cymru ati i gomisiynu tri o ymgynghoriadau bach, a gafodd ymateb da, gyda phlant a phobl ifanc a oedd â phrofiad o’r broses ddiogelu, rhai ohonynt â phrofiad o ofal. Nod yr ymgynghoriadau oedd casglu barn plant a phobl ifanc ynglŷn â’u profiadau a’u disgwyliadau o safbwynt arferion yn ymwneud â’u diogelu a diwallu eu hanghenion gofal a chymorth.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriadau gan:

- y Rhwydwaith Maethu;
- Dynamix;
- Barnardo’s Cymru a’r NSPCC yn gweithio gyda’i gilydd.

Thema glir yn adroddiadau’r ymgynghoriadau yw bod plant a phobl ifanc sy’n destun gweithdrefnau diogelu yn teimlo nad yw pobl yn gwrando arnynt bob amser ac nad ydynt yn rhan o gynllunio eu gofal a’u cymorth. Disgrifiodd y plant a’r bobl ifanc rai arferion da gan wasanaethau ac ymarferwyr unigol pan oeddent o’r farn eu bod yn cael gofal da, pan oedd gan yr ymarferwyr amser i’w roi iddynt a phan gâi eu barn ei gwerthfawrogi. Fodd bynnag, fe wnaethant hefyd ddisgrifio adegau pan nad oeddent yn teimlo bod gan ymarferwyr amser i’w roi iddynt ac nad oedd eu barn yn cael ei gwerthfawrogi.

Mae profiadau a barn y plant a'r bobl ifanc a gyfrannodd at yr ymgynghoriadau wedi llywio datblygiad y ddogfen hon yn uniongyrchol.

## 3. Datblygu'r ddogfen

### 3.1 Y Grŵp Cynghori

Cyfarfu'r Grŵp Cynghori bum gwaith rhwng Ionawr a Medi 2018. Deuai'r aelodau o nifer o asiantaethau gwahanol. Mae llawer o'r aelodau wedi newid rôl ers 2018; isod, nodir y rôl a oedd ganddynt yn ystod y cyfnod y bu'r grŵp yn cyfarfod. Rydym yn ddiolchgar i'r aelodau am yr amser y gwnaethant ei gyfrannu at y broses ac am ddefnyddio eu harbenigedd i ddatblygu'r ddogfen.

- Dr Sophie Hallett, Prifysgol Caerdydd (Cadeirydd)
- Jan Coles, Rheolwr Gweithredol, Rheolwr Gwasanaeth Partneriaethau Strategol a Diogelu, Gwasanaethau Cymdeithasol Plant Caerdydd;
- Cecile Gwilym, Uwch-swyddog Polisi a Materion Cyhoeddus, NSPCC Cymru;
- Heather Heaney, Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn Addysg, Cyngor Sir Fynwy;
- Lisa Hedley, Rheolwr Busnes, Bwrdd Diogelu Bae'r Gorllewin;
- Joanne Llewellyn, Rheolwr Tîm, Gwasanaethau Cymdeithasol Plant, Casnewydd;
- Rhiannon Lloyd, Rheolwr Tîm Asesu a Chymorth, Gwasanaethau Cymdeithasol Plant, Conwy;
- Dr Alison Mott, Meddyg Dynodedig, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro;
- Dr Richard Pates, Seicolegydd Clinigol, Cartref Diogel i Blant Hillside;
- Laura Scale, Uwch-swyddog Datblygu Ymarfer, CAFCASS Cymru;
- Claire Short, Rheolwr Cenedlaethol Cymru, Stop it Now! Cymru;
- Eleri Thomas, Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu, Gwent;
- Maxine Thomas, Uwch-berson Dynodedig, Diogelu a Llesiant, Coleg Sir Benfro;
- Mark Vaughan, Uned Erlyniadau Cyhoeddus, Heddlu De Cymru;
- Sharron Wareham, Rheolwr Gwasanaethau Plant, Dyfodol Gwell, Barnardo's Cymru;
- Cathryn Williams, Cynghorydd Gwaith Cymdeithasol Rhanbarthol Gogledd Cymru ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant;
- David Williams, Prif Swyddog Ieuenctid, Torfaen;
- Christina Worley, Rheolwr Tîm, Gwasanaethau Cymdeithasol Plant Conwy.

## 4. Ymatebion i Gwestiynau'r Ymgynghoriad

Derbyniodd Llywodraeth Cymru 27 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Dywedodd rhai sefydliadau nad oeddent wedi cyflwyno ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad gan eu bod wedi bod yn gysylltiedig â datblygu'r ddogfen. Ymatebion naratif oedd rhai o'r ymatebion ac ni chafodd ateb clir ei nodi ar gyfer pob cwestiwn, ac ni wnaeth rhai o'r ymatebwyr ymateb i bob un o'r cwestiynau. Felly, nid yw'r cyfanswm a gofnodir yn cyfateb i 27. Ystyriwyd yr holl ymatebion yn gyfartal o safbwynt y sylwadau a dderbyniwyd. Ceir rhestr o'r ymatebwyr yn Atodiad A.

Isod ceir crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ynghyd â dadansoddiad Llywodraeth Cymru.

Nid oedd Holiadur yr Ymgynghoriad yn cynnwys cwestiwn yn ymwneud â'r Cyflwyniad i'r canllawiau. Fodd bynnag, cyflwynodd rhai ymatebwyr sylwadau'n ymwneud â phennod y Cyflwyniad. Bydd teitl Cyfrol 5 Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl yn cael ei gynnwys yn llawn yn fersiwn derfynol y canllawiau. Cafwyd ceisiadau i ymestyn y ddeddfwriaeth berthnasol a restrir yn y cyflwyniad, a byddwn yn ystyried hyn.

| **1. A yw Pennod 1 yn nodi'r ffyrdd y gellir deall ac adnabod camfanteisio'n rhywiol ar blant fel ffordd o gam-drin plant yn rhywiol mewn modd clir a defnyddiol?** | | |
|---|---|---|
| **Ydy - 17** | **Nac ydy - 1** | **Ddim yn siŵr – 3** |

**Crynodeb – Ar y cyfan, cyflwynodd mwyafrif yr ymatebwyr sylwadau cadarnhaol yn ymwneud â Phennod 1.**

Ymatebodd Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru trwy ddweud: *Mae'r bennod yn gryno iawn ac yn cynnig dealltwriaeth glir o'r ffyrdd y gellir deall ac adnabod camfanteisio'n rhywiol ar blant fel ffordd o gam-drin plant yn rhywiol. Rwy'n falch bod y ddogfen yn cydnabod bod traean o ddioddefwyr camfanteisio'n rhywiol ar blant yn wrywaidd, ac mae angen gwneud mwy o waith i annog dioddefwyr gwrywaidd i roi gwybod am gamfanteisio'n rhywiol ar blant.*

Dyma a ddywedodd Estyn: *Mae'r bennod yn nodi'n glir y materion allweddol sy'n ymwneud â chamfanteisio'n rhywiol ar blant. Y ffordd o'i adnabod, y cyd-destunau lle gallai ddigwydd, a'r termau, y cysyniadau a'r materion allweddol sy'n gysylltiedig â chamfanteisio'n rhywiol ar blant.*

Mewn ambell un o'r ymatebion, crybwyllwyd rhai meysydd penodol y gellid eu newid.

Dyma oedd ymateb Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: *Sut ydym yn adnabod camfanteisio'n rhywiol ar blant? Nid yw'r adran hon yn cynnwys gwybodaeth berthnasol dan y pennawd hwn gan mai'r unig beth a drafodir yw datgelu. Dylai gynnwys dulliau adnabod trwy sgrinio, rhannu gwybodaeth, adnabod yr arwyddion ac ati.*

Crybwyllwyd y mater hwn mewn ambell ymateb arall ac mewn rhai ymatebion i gwestiynau'n ymwneud â phenodau eraill. Hefyd, roedd nifer fechan o ymatebion yn cyfeirio at yr angen am offer sgrinio ac asesiadau risg. Mae tystiolaeth sydd wedi

deillio o’r adolygiad o drefniadau presennol a gynhaliwyd gan CASCADE ac a gyhoeddwyd yn 2017, a thystiolaeth gan y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol, yn awgrymu bod defnyddio offer asesu risg, yn cynnwys SERAF, wedi arwain at ddull seiliedig ar broses sy’n canolbwyntio ar reoli risg – rhywbeth nad yw’n cynorthwyo gyda chanlyniadau diogelu yn y tymor hwy. Byddwn yn nodi hyn yn benodol yn y canllawiau, gan nodi hefyd y gall awdurdodau lleol ddefnyddio offer sgrinio neu asesiadau risg os dymunant wneud hynny, yn cynnwys SERAF – fodd bynnag, byddem yn disgwyl i’r rhain gyfateb i un elfen yn unig o’r asesiad a’r gwaith cynllunio gofal a chymorth. Byddwn hefyd yn cynnwys cyfarwyddyd penodol ynghylch yr angen i ddeall dangosyddion, fel y nodir yn y Prompt i Ymarferwyr.

Croesawodd Rhwydwaith Diogelu GIG Cymru y testun yn sôn am ‘gydsynio’, gan ddweud ei fod yn arbennig o fuddiol. Adleisiwyd hyn mewn ymatebion eraill.

Awgrymodd Rhwydwaith Diogelu GIG Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru newidiadau penodol yn ymwneud â’r Prompt i Ymarferwyr, a bydd y rhain yn cael eu cynnwys.

Roedd tri ymateb yn ymwneud â barn plant a phobl ifanc, a gyflwynwyd naill ai gan bobl ifanc neu’r rhai a oedd yn gweithio gyda nhw. Cyflwynodd Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru sylwadau’n ymwneud â’r defnydd o’r term ‘plentyn’ yn hytrach na ‘plentyn neu berson ifanc’:
*Er y cyfeirir at y diffiniad cyfreithiol o blentyn fel rhywun hyd at 18 oed, wrth gyfeirio at ‘bobl ifanc’ yng Nghymru rydym fel arfer yn golygu unigolion 11-25 oed…..e.e. mae’n debyg y byddai’r rhan fwyaf o unigolion 16 oed yn teimlo bod pobl yn eu trin yn nawddoglyd pe baent yn cael eu galw’n blentyn, ond byddent yn cael parch ar lefel wahanol pe baent yn cael eu galw’n berson ifanc, gan adlewyrchu’n well eu hoedran cronolegol a datblygiadol.*

Bu’r Grŵp Cynghori’n trafod y mater hwn. Ceir dau reswm dros y penderfyniad i ddefnyddio’r diffiniad cyfreithiol o blentyn a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn gyntaf, caiff y canllawiau eu cyhoeddi dan y ddeddfwriaeth honno. Yn ail, at ei gilydd roedd aelodau’r Grŵp Cynghori’n teimlo ei bod yn bwysig atgoffa deiliaid dyletswyddau fod y canllawiau’n berthnasol i bob unigolyn hyd at 18 oed, a bod unigolion 16 ac 17 oed yn haeddu ymateb fel plant mewn perygl. Wedi dweud hyn, byddwn yn ychwanegu testun er mwyn nodi sail y penderfyniad hwn ac er mwyn atgoffa’r darllenwyr na fydd pobl ifanc yn gyfforddus â phobl yn cyfeirio atynt yn uniongyrchol fel plant.

Crybwyllodd NYAS Cymru y ffaith nad yw pobl ifanc yn adnabod y term Camfanteision’n Rhywiol ar Blant ac nad ydynt *‘yn uniaethu eu profiad â’r disgrifiad hwn’*. Ymhellach, roedd pobl ifanc o Gaerdydd yn teimlo y dylid mynd ati i ddiffinio ‘camfanteisio’n rhywiol ar blant’ mewn modd sy’n gweddu i bobl ifanc, ac maent wedi datblygu diffiniad o’r fath eu hunain mewn sesiynau rhannu gwybodaeth. Caiff y canllawiau statudol eu hanelu at bartneriaid diogelu statudol ac at y rhai sy’n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd. Fodd bynnag, yn y canllawiau terfynol fe fyddwn yn cynnwys naratif cliriach ynghylch y ffaith na fydd plant a phobl ifanc, o bosibl, yn adnabod y diffiniad neu’r term dan sylw.

Datblygu gwybodaeth o’r fath oedd bwriad ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2018 gyda phlant a phobl ifanc. Fodd bynnag, dywedodd y plant a’r bobl ifanc a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad hwnnw nad oeddent yn dymuno cael gwybodaeth ysgrifenedig

neu gynnwys ar-lein newydd yn sôn am y mater. Gwyddom fod ‘Fersiwn i Bobl Ifanc’ o ganllawiau ymgynghori wedi cael ei defnyddio yn New South Wales, Awstralia, fel offeryn ymarfer i hwyluso trafodaethau gyda phlant a phobl ifanc. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal gwaith pellach i ystyried gwybodaeth ar gyfer plant a phobl ifanc y gellid ei defnyddio i’w cynorthwyo nhw ac ymarferwyr i gychwyn siarad am gamfanteisio’n rhywiol ar blant.

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Bydd rhai newidiadau penodol yn cael eu cyflwyno ar sail sylwadau’r ymatebwyr, bydd datganiadau’n cael eu cynnwys i egluro mwy ar y cynnwys mewn perthynas â rhai materion. Ar wahân i hyn, bydd gwaith pellach yn cael ei ystyried mewn perthynas â gwybodaeth ar gyfer plant a phobl ifanc i ategu arferion sy’n canolbwyntio ar blant.**

**2. A yw Pennod 2 yn nodi tystiolaeth am ddulliau o rwystro camfanteisio’n rhywiol ar blant mewn modd clir a defnyddiol?**

| | | |
|---|---|---|
| **Ydy – 12** | **Nac ydy - 2** | **Ddim yn siŵr - 5** |

**Crynodeb – Ar y cyfan, cafwyd ymatebion mwy cymysg i’r cwestiwn hwn ac roedd rhai o’r ymatebwyr yn llai hyderus ynglŷn â chynnwys Pennod 2, tra’r oedd eraill yn gadarnhaol ynglŷn â’r cynnwys.**

Gwelir dwy brif thema ymhlith yr ymatebwyr a ddywedodd nad oeddent yn siŵr neu’r ymatebwyr a gyflwynodd ateb ‘Nac ydy’ ar gyfer Pennod 2. Yn gyntaf, ceir gormod o wybodaeth yn y bennod ac ni cheir eglurder ynglŷn â’r hyn y dylid ei wneud. Yn ail, nid yw cynnwys enghreifftiau o brosiectau yn fudidol, a byddant yn siŵr o ddyddio.

Yn ôl Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda: *Nid yw’n dweud yn glir wrth sefydliadau neu eu hymarferwyr beth sydd angen iddynt ei wneud.*

Dyma oedd ymateb Cyngor Sir y Fflint: *Mae’r canllawiau’n hir iawn ac fe ellid eu crynhoi i greu adnodd defnyddiol ar gyfer y rhai sydd angen gwybodaeth am y camau y dylid eu cymryd.*

Mae sylwadau o’r fath i’w gweld mewn nifer o ymatebion. Byddwn yn ystyried pa wybodaeth y gellir ei dileu heb i ni golli amcan y polisi, a byddwn yn tynnu’r enghreifftiau o’r bennod. Ymhellach, cafwyd rhai sylwadau penodol yn ymwneud â threfn y deunydd, a byddwn yn ystyried y rhain wrth olygu’r bennod. Gofynnodd tri o ymatebwyr am gael cryfhau’r cynnwys yn ymwneud â Diogelu Cyd-destunol. Ymhellach, cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at yr angen i gryfhau’r wybodaeth yn ymwneud â Chyfweliadau Dychwelyd Adref ar ôl bod ar goll.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno bod y bennod yn nodi tystiolaeth ar gyfer atal camfanteisio’n rhywiol ar blant mewn modd clir a defnyddiol.

Yn ôl Cyngor Sir Ceredigion: *Mae’r bennod yn cynnig trosolwg da o ymyriadau a dulliau amrywiol ar gyfer atal camfanteisio’n rhywiol ar blant, sy’n ddefnyddiol ac yn llawn gwybodaeth.*

Meddai Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru: *Mae’r Grŵp yn cytuno â’r adran hon ynghylch ymlyniad, perthnasoedd, gwydnwch ac, yn wir, gwaith ieuenctid ei hun, o*

*ran cynorthwyo pobl ifanc i bontio i fyd oedolion a rhoi i bobl ifanc yr 'offer' i ddod yn ddinasyddion hyderus, gwydn, wedi'u grymuso, trwy ddull addysgiadol.*

Dyma ymateb Heddlu De Cymru: *Mae tôn gyffredinol y bennod hon yn fuddiol, gyda phwyslais arbennig ar ymyrryd yn gynnar ac atal.*

Yn ôl Coleg Brenhinol y Seiciatryddion: *Mae'r Coleg yn cytuno â'r angen a fynegir yn y bennod hon, sef y dylai cymorth therapiwtig gael ei ddarparu'n gynnar pan fydd problem yn codi, neu ei ddarparu'n rhagweithiol mewn ymateb i anghenion neu brofiadau hysbys pan aiff y plentyn i ofal.*

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Byddwn yn golygu'r bennod, yn cael gwared â'r enghreifftiau ac yn cyflwyno newidiadau'n ymwneud â chynnwys penodol fel yr awgrymir yn yr ymatebion.**

**3. A yw Pennod 3 yn nodi'r gweithdrefnau diogelu ar gyfer plant sydd mewn perygl o gamfanteisio'n rhywiol mewn modd clir a defnyddiol?**

| | | |
|---|---|---|
| **Ydy - 9** | **Nac ydy - 5** | **Ddim yn siŵr –2** |

**Crynodeb – Cafwyd ymatebion cymysg i'r cwestiwn ynghylch a yw Pennod 3 yn nodi'r gweithdrefnau diogelu ar gyfer plant sydd mewn perygl o gamfanteisio'n rhywiol ar blant mewn modd clir a defnyddiol.**

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a ddywedodd 'Nac ydy' neu 'Ddim yn siŵr' wedi cyflwyno sylwadau'n ymwneud â Gweithdrefnau Diogelu Cymru, yr angen am gael dolenni, neu'r angen i ymgorffori dolenni o'r fath yn hytrach na chynnwys y wybodaeth yn y canllawiau. Dywedodd rhai o'r ymatebwyr nad oeddent yn siŵr gan eu bod yn ansicr a oedd y cynnwys yn cyd-fynd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori cyn i Weithdrefnau Diogelu Cymru a Chanllaw Ymarfer Cymru Gyfan ar Ddiogelu Plant sy'n Wynebu Risg o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant gael eu cyhoeddi ar ffurf dogfennau digidol ar 11 Tachwedd 2019.

Darganfu'r adolygiad o'r trefniadau a'r polisïau presennol a gynhaliwyd gan CASCADE, Prifysgol Caerdydd, ac a gyhoeddwyd yn 2017 (gweler 2.1), fod Protocol Cymru Gyfan ar ddiogelu plant rhag camfanteisio rhywiol yn rhannu cynnwys a dull gweithredu gyda chanllawiau statudol 2011, a bod hyn yn cael ei ystyried fel cryfder mawr ymhlith y rhai a gyfrannodd at yr adolygiad.

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Byddwn yn golygu Pennod 3 ac yn cynnwys dolenni ar gyfer Gweithdrefnau Diogelu Cymru a'r Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan perthnasol. Byddwn yn lleihau'r wybodaeth a gynhwysir i gyfeirio'n uniongyrchol at y dolenni perthnasol.**

**4. A yw Pennod 4 yn nodi tystiolaeth am ddulliau o ddiwallu anghenion gofal a chymorth plant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin drwy gamfanteisio'n rhywiol mewn modd clir a defnyddiol?**

| | | |
|---|---|---|
| **Ydy - 15** | **Nac ydy - 3** | **Ddim yn siŵr - 4** |

**Crynodeb – Ar y cyfan, roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn gadarnhaol a dangoswyd cefnogaeth i'r dull a nodir yn y bennod. Daeth dwy brif thema i'r amlwg ymhlith y rhai nad oeddent yn siŵr neu'r rhai a ddywedodd 'Nac ydy'.**

Yn ôl Arolygiaeth Gofal Cymru: *"Dyma ffynhonnell wybodaeth werthfawr ar gyfer ymarferwyr. Rydym yn arbennig o hoff o'r pwyslais ar ofal a chymorth er mwyn cyflawni newid, yn hytrach nag ar leihau'r risg. Er bod y bennod yn faith, mae'n fuddiol o ran egluro sut gall ymarferwyr ddefnyddio'u sgiliau gwaith cymdeithasol presennol mewn o ran meithrin perthynas ac ati er mwyn helpu pobl ifanc."*

Medd Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru: *"Mae'n beth cadarnhaol cael darlun o safbwynt y plentyn/person ifanc yn yr adran hon… trwy gael gwell dealltwriaeth o'r safbwynt hwn, gallwn fynd ati i gychwyn dylunio gwasanaethau sy'n diwallu anghenion plant/pobl ifanc yn well, yn hytrach na dylunio gwasanaethau y cred oedolion eu bod yn diwallu eu hanghenion."*

Dyma oedd ymateb Heddlu Gwent a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu: *"Rydym yn llwyr gefnogol i'r ystyriaethau ynghylch anghenion gofal a chymorth yng nghyd-destun yr adroddiad Cadw'n Ddiogel yn y bennod hon. Ceir canlyniadau pwysig, seiliedig ar dystiolaeth, mewn perthynas â chynlluniau gofal a chymorth yn yr adroddiad hwn, ac mae'n beth cadarnhaol gweld bod y canlyniadau hyn wedi cael eu hystyried yn y canllawiau."*

Yn ôl Barnardo's Cymru: *"Mae'r bennod hon yn nodi'n glir y dystiolaeth ynghylch yr hyn sy'n gweithio ar gyfer diwallu anghenion gofal a chymorth plant sydd mewn perygl o ddioddef camfanteisio'n rhywiol ar blant, neu blant a gaiff eu cam-drin trwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant."* Fodd bynnag, fe wnaethant awgrymu bod angen mwy o wybodaeth am ddarpariaethau 'cam i lawr' pan fydd plant yn cyrraedd man mwy sefydlog yn eu hadferiad ac wrth iddynt gyrraedd 18 oed. Byddwn yn ystyried y materion hyn ac yn ystyried ychwanegu mwy o wybodaeth yn eu cylch.

Roedd Rhwydwaith Diogelu GIG Cymru yn bryderus ynghylch *"y ffordd mae'r bennod hon yn nodi gwahanol adrannau ar gyfer gwahanol asiantaethau, heb hyrwyddo dull amlasiantaethol o weithio yng nghyd-destun camfanteisio'n rhywiol ar blant"*, ac roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda o'r un farn.

A dywedodd Gwasanaethau Cymdeithasol Ceredigion: *"Mae cyfeirio at asiantaethau unigol yn ddefnyddiol yma,"* ond ychwanegwyd y byddai cael gwybodaeth am swyddogaethau fforymau amlasiantaethol, fel fforymau amlasiantaethol yn ymwneud â chamfanteisio'n rhywiol ar blant (MACSE), o fudd.

Dywedodd Rhwydwaith Diogelu GIG Cymru *"y gellid cynnwys manylion ymchwil mewn mannau eraill, efallai mewn atodiad neu fel hyperddolen, ond yn rhywle ar wahân… nid ydym angen cymaint o fanylion."* Dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda fod rhai'n cytuno â'r safbwynt hwn, ond dywedodd hefyd *"fod pobl eraill o fewn y Bwrdd Iechyd o'r farn y byddai'n briodol cynnwys yr holl ymchwil gan fod hyn yn gwneud y bennod yn bwerus ac yn effeithiol."*

Awgrymodd Gwasanaethau Plant Abertawe a Dr Carlene Firmin, Rhaglen Diogelu Cyd-destunol Prifysgol Swydd Bedford, y dylid cynnwys dull diogelu cyd-destunol ym Mhennod 4. Byddwn yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud ag ystyried materion

diogelu cyd-destunol. Dylai anghenion gofal a chymorth ehangach plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o ddioddef camfanteisio'n rhywiol ar blant gael eu hystyried wrth lunio ymateb, yn yr un modd â phlant eraill. Gall y cysyniad o ddiogelu cyd-destunol lywio ystyriaethau ynghylch materion y dylid ymdrin â nhw trwy gynllun gofal a chymorth ar gyfer plentyn neu berson ifanc unigol. Dylid rhannu gwybodaeth mewn fforwm strategol i gyfarwyddo ymateb diogelu corfforaethol. Byddwn yn cynnwys testun yn sôn am y pwynt hwn.

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Byddwn yn golygu'r bennod, yn cynnwys cyfeiriad cliriach ac yn ychwanegu rhywfaint o gynnwys mwy penodol yn ymwneud â'r materion a grybwyllwyd yn y sylwadau. Byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i'r mater yn ymwneud â pha un a yw rhannu'r wybodaeth ar gyfer gwahanol asiantaethau yn amharu ar ddull amlasiantaethol ynteu a ellir ymdrin â hyn mewn ffordd wahanol, trwy gryfhau'r canllawiau ar fforymau strategol amlasiantaethol lleol a rhanbarthol.**

5. **A yw Pennod 5 yn gosod y trefniadau ar gyfer tarfu ac erlyn cyflawnwyr sy'n camfanteisio'n rhywiol ar blant ac ar gyfer cefnogi dioddefwyr sy'n blant mewn modd clir a defnyddiol?**

| Ydy -13 | Nac ydy - 3 | Ddim yn siŵr - 4 |
|---|---|---|

**Crynodeb – Ar y cyfan, cyflwynodd mwyafrif yr ymatebwyr ymatebion cadarnhaol ynghylch Pennod 5. Yn ôl rhai o'r ymatebwyr a ddywedodd 'Ddim yn siŵr', fe wnaethant gyflwyno'r ateb hwn gan fod y bennod yn ymdrin yn bennaf â materion heb eu datganoli, a oedd y tu hwnt i faes eu harbenigedd.**

Dyma oedd ymateb Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru: *"Mae Pennod 5 yn amlinellu mewn modd clir a phendant y trefniadau ar gyfer tarfu ac erlyn cyflawnwyr sy'n camfanteisio'n rhywiol ar blant ac ar gyfer cefnogi dioddefwyr sy'n blant".*

Medd Arolygiaeth Gofal Cymru: *"Yn arbennig, mae amlinellu troseddau rhywiol perthnasol yn debygol o fod yn ddefnyddiol iawn i amrywiaeth o weithwyr proffesiynol, yn cynnwys ymarferwyr rheng flaen".*

Yn ôl Gwasanaethau Cymdeithasol Ceredigion: *"Mae'r dolenni yn y bennod yn ddefnyddiol a chaiff pwysigrwydd cydweithio amlasiantaethol ei fynegi'n glir".*

Dyma oedd ymateb Heddlu De Cymru: *"Yn ein tyb ni mae'r adran hon yn arbennig o ddefnyddiol ac mae'n cyfeirio at adnoddau buddiol, fel y pecyn cymorth ar gyfer tarfu ar bobl a all gamfanteisio ar blant. Mae'r cyfeiriad at ystyried y darlun ehangach mewn perthynas â chamfanteisio'n rhywiol ar blant o fudd arbennig i blismona".* A dyma a ddywedodd Heddlu Gwent a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu: "*Caiff troseddau'n ymwneud â chamfanteisio'n rhywiol ar blant eu hesbonio'n fanwl ac amlinellir y fframwaith cyfreithiol y gellir ei ddefnyddio i adnabod ac erlyn camfanteisio".* Fodd bynnag, maent yn datgan hefyd yr angen i nodi'n fwy pendant y cysylltiadau rhwng camfanteisio'n rhywiol ar blant a chamfanteisio'n droseddol ar blant. Rydym wedi cyfeirio at hyn mewn man arall, ond byddwn yn ystyried ffyrdd o gynnwys cyfeiriadau penodol ym Mhennod 5 hefyd.

Gofynnodd ymatebwyr a oedd yn cynrychioli Byrddau Iechyd a Rhwydwaith Diogelu GIG Cymru am gael newid y geiriad wrth gyfeirio at Ganolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol – dylid defnyddio ‘rhaid iddo gael ei gyfeirio’ yn hytrach na ‘dylai gael ei gyfeirio’. Byddwn yn cyflwyno’r newid hwn. Cyfeiriwyd hefyd at y ffaith fod y canllawiau “Achieving Best Evidence in Criminal Proceedings: guidance on interviewing victims and witnesses, and guidance on using special measures” (2011) yn cael eu hadolygu – rydym yn ymwybodol o hyn. Hyd nes y cyhoeddir fersiwn ddiweddarach o’r canllawiau, dylid dilyn y canllawiau cyfredol a gyhoeddwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn 2011.

Nid oedd NYAS Cymru yn sicr ynghylch Pennod 5, gan ddweud: *“Mae angen eglurhad pellach ynghylch dad-droseddoli pobl ifanc sy’n ddioddefwyr eu hunain yn sgil camfanteisio’n rhywiol ar blant, a dylid defnyddio dulliau adferol amgen ledled Cymru.”* Mae Llywodraeth Cymru yn glir y dylai plant a phobl ifanc y camfanteisir arnynt yn rhywiol gael eu cynorthwyo fel dioddefwyr camdriniaeth rywiol. Gwyddom fod yna blant a phobl ifanc sydd wedi dioddef camfanteisio’n rhywiol ar blant eu hunain, ac sydd hefyd yn arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol neu’n cynnwys plant a phobl ifanc eraill mewn camfanteisio o’r fath. Mae hwn yn fater cymhleth a chaiff ei drafod mewn adran arall yn y canllawiau. Byddwn yn ystyried cynnwys datganiad mwy penodol yn ymwneud â’r ffyrdd y gall plant a phobl ifanc gael eu troseddoli oherwydd materion yn ymwneud â’u camdriniaeth trwy gamfanteisio.

Cyflwynodd Gwasanaeth Tacsis a Llogi Preifat Veezu ymateb er mwyn rhannu gwybodaeth am fuddion caffael a thrwyddedu a’r potensial i gwmnïau tacsis gyfrannu at wybodaeth yr heddlu. Sonnir am rai o’r materion hyn ym Mhennod 2 ar atal camfanteisio’n rhywiol ar blant. Ymhellach, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo trwy’r ‘Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol’ i ddatblygu Polisi Diogelu Corfforaethol enghreifftiol gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Byddai polisi o’r fath yn ystyried y materion a grybwyllir yn ymateb Gwasanaeth Tacsis a Llogi Preifat Veezu. Byddwn yn cyfeirio’n benodol at y gwaith hwn yn y canllawiau terfynol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Mae’r Bennod hon yn cynnwys gwybodaeth sy’n ymwneud yn bennaf â materion nad ydynt wedi’u datganoli, a bu Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â’r Swyddfa Gartref yn gynnar yn y broses i gytuno ar ran helaeth o’r cynnwys. Mae nifer o ymatebion yn awgrymu y gellid cynnwys rhywfaint o’r wybodaeth a geir ym Mhennod 5, ym Mhennod 2. Ni fyddwn yn gwneud hyn, ond byddwn yn cynnwys cyfeiriadau penodol i gysylltu’r penodau. Ymhellach, caiff newidiadau ac ychwanegiadau penodol eu hawgrymu yn yr ymatebion; byddwn yn ystyried y rhain wrth gyflwyno diwygiadau.**

6. **Fe wnaethom ofyn am farn yr ymatebwyr o ran yr effeithiau y byddai’r canllawiau yn eu cael ar y Gymraeg, yn arbennig o ran**

i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg; a
ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

**Beth fyddai’r effeithiau yn eich barn chi? Sut fyddai modd cynyddu’r effeithiau cadarnhaol neu leihau’r effeithiau negyddol?**

**Crynodeb – Cafwyd wyth o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Soniodd saith ohonynt am yr un materion, sef yr angen i gynnwys testun yn ymwneud â gofynion y Gymraeg a darparu gwasanaethau yn newis iaith y plentyn.**

Roedd un ymatebydd o'r farn na ddylid gofyn y cwestiwn hwn mwyach, gan fod dyletswyddau cyhoeddus mewn perthynas â'r Gymraeg wedi bod ar waith ers peth amser dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Roedd y saith ymatebydd arall yn cynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Rhwydwaith Diogelu GIG Cymru, Estyn, Barnardo's Cymru, Cyngor Ceredigion ac Arolygiaeth Gofal Cymru. Roedd eu hymatebion i gyd yn gofyn am gael cynnwys yn y canllawiau wybodaeth am Gynnig Gweithredol y Gymraeg a'r polisi 'Mwy na Geiriau'.

Yn y cyflwyniad i ymgynghoriad y canllawiau drafft dywedir y dylid darllen y canllawiau ar y cyd â *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 1 – Cyflwyniad a Throsolwg* a *Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 5 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant sy'n Wynebu Risg*. Caiff gofynion y Gymraeg eu nodi yn y cyfrolau hyn. Fodd bynnag, ar sail yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, byddwn yn cynnwys gwybodaeth am ofynion y Gymraeg yn y canllawiau terfynol.

Yn ôl Arolygiaeth Gofal Cymru: *Ni welsom gyfeiriad yn y testun at ystyried dewis iaith pobl ifanc pan fyddant yn siarad gyda gweithwyr proffesiynol. Mae'n debyg y bydd hyn yn arbennig o bwysig wrth siarad am brofiadau trawmatig a phersonol.*

Crybwyllwyd yr un mater gan chwe ymatebydd arall.

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Byddwn yn cynnwys yn y canllawiau wybodaeth yn ymwneud â pha mor bwysig yw darparu gwasanaethau yn newis iaith y plentyn a'r angen am gael cyfieithwyr ar gyfer rhai plant.**

7. **Fe wnaethom ofyn p'un a fydd y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon mewn perthynas â'r canllawiau hyn yn effeithio ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig. Dyma'r nodweddion gwarchodedig: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a chyfnodau mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol. A ydych yn credu y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig? Os felly, pa rai a pham / pam ddim?**

| | |
|---|---|
| **Ydw – 10** | **Nac ydw – 5** |

**Crynodeb – Cyflwynodd deg o ymatebwyr wybodaeth bellach yn ymwneud â'u hateb 'Ydw' ar gyfer y cwestiwn hwn. Awgrymodd yr ymatebwyr fod effaith nodweddion gwarchodedig ar natur agored i niwed plant a risg wedi'i hystyried drwy'r canllawiau.**

Yn ôl Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda: *Bydd y ddogfen yn cael effaith; bydd yr effaith yn gadarnhaol oherwydd ei natur gynhwysol. Yn amlwg, mae'n berthnasol i bobl o bob oed a diwylliant. Fel y nodir yn y canllawiau, yn aml y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig penodol sy'n fwyaf agored i ddioddef camfanteisio'n rhywiol ar blant.*

*Trwy dynnu sylw at y grwpiau hyn, mae'r canllawiau'n helpu i godi ymwybyddiaeth a thargedu cymorth.*

Dyma oedd ymateb Estyn: *"Dylai'r canllawiau hyn wella'r ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc ag anableddau, sy'n wynebu mwy o risg o ddioddef camfanteisio'n rhywiol ar blant na'u cyfoedion yn gyffredinol."*

Medd Cyngor Ceredigion: *Mae'r ddogfen yn cydnabod bod y mater dan sylw yn gallu effeithio ar blant a theuluoedd o bob cefndir. Mae'r canllawiau'n tynnu sylw at y ffaith y gall nodweddion gwarchodedig penodol fod yn arwydd o gamfanteisio'n rhywiol ar blant a gwneud y plant a'r bobl ifanc dan sylw yn fwy agored i ddioddef camfanteisio o'r fath. Dylai tynnu sylw at y grwpiau hyn yn y canllawiau helpu i dargedu gwaith asesu a chymorth.*

Dyma oedd ymateb Barnardo's Cymru: *"Mae'r canllawiau'n cyfeirio at y materion allweddol sy'n effeithio ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig, gan dynnu sylw at rai o'r materion allweddol ar gyfer ymarferwyr wrth bennu plant a phobl ifanc BAME (pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig) ac LQBTQ+".*

Yn achos y pedwar ymatebydd a atebodd 'Nac ydw' ar gyfer y cwestiwn hwn, ni wnaethant gyflwyno unrhyw sylwadau pellach. Awgrymodd un y dylid cryfhau'r wybodaeth am blant trawsryweddol ac anneuaidd.

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Awgryma'r ymatebion fod y mater wedi cael ei ystyried mewn modd effeithiol yn y canllawiau. Byddwn yn adolygu'r cyfeiriadau at blant trawsryweddol ac anneuaidd.**

8. **Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw iddynt yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i'w nodi:**

**Crynodeb: Cyflwynodd cyfanswm o bedwar ar ddeg o ymatebwyr wybodaeth mewn ymateb i'r gwahoddiad i sôn am faterion cysylltiedig na roddwyd sylw penodol iddynt. Gwelwyd themâu cyffredin ymhlith deg o'r ymatebion. Cafwyd tri ymateb pellach lle na ddilynwyd cwestiynau'r ymgynghoriad, a chaiff y rhain hefyd eu hystyried yn y fan hon.**

Aeth pedwar o'r ymatebwyr ati i ddefnyddio'r adran hon i ddweud eu bod yn croesawu'r canllawiau ac yn cefnogi'r dull gweithredu.

Roedd rhywfaint o themâu cyffredin i'w gweld yn y deg ymateb arall. Yn bennaf, roeddent eisiau i'r canllawiau gael eu golygu er mwyn gwneud y ddogfen yn fyrrach; roeddent eisiau i rywfaint o'r wybodaeth gael ei dileu neu ei chynnwys mewn atodiadau; ac roeddynt eisiau i'r canllawiau fod â fformat cliriach.

Roedd pump o'r ymatebwyr eisiau i'r dyletswyddau statudol dan y canllawiau gael eu pennu'n benodol.

Ni wnaeth y Cyngor Meddygol Cyffredinol ateb y cwestiynau yn yr ymgynghoriad, ond fe wnaethant gyflwyno gwybodaeth bellach am ganllawiau diogelu plant y Cyngor Meddygol Cyffredinol. Byddwn yn cyfeirio at yr wybodaeth hon yn y canllawiau terfynol.

Ni wnaeth Comisiynydd Plant Cymru ateb y cwestiynau a gynhwyswyd yn yr ymgynghoriad, ond fe gyflwynodd ymateb yn ymwneud â nifer o faterion penodol:

- Dylid cynnwys gwybodaeth fwy penodol am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn; Hawliau Plant a pholisïau cydnaws;
- Roedd yn croesawu dull y canllawiau o ran cydraddoldeb a pheidio â gwahaniaethu;
- Roedd yn croesawu'r ffaith fod dyfyniadau gan blant a phobl ifanc wedi cael eu cynnwys, ond gofynnodd am ganllawiau mwy penodol i ymarferwyr yn ymwneud â'r dull o ganolbwyntio ar y plentyn;
- Mynegodd bryderon ynghylch y defnydd o'r term 'a gafodd brofiad o gamfanteisio'n rhywiol ar blant';
- Crybwyllodd fod angen treulio amser gyda phlant er mwyn datblygu ymarfer perthynol;
- Mae angen nodi'n glir y gofynion statudol sy'n deillio o'r canllawiau;
- Cyfeiriwyd at y cais a wnaed yn adroddiad blynyddol y Comisiynydd Plant mewn perthynas â chasglu data cenedlaethol yn dilyn argymhelliad Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig fel rhan o'u sylwadau cloi yn 2016.

Ymhellach, cyflwynwyd ymateb e-bost gan un unigolyn yn crybwyll materion yn ymwneud â therminoleg – lle dywedir bod plant yn cael eu 'gorfodi' i rannu delweddau ac ati pan fônt, yn aml, yn cael eu 'paratoi' neu eu 'denu' i wneud hynny.

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Byddwn yn golygu'r canllawiau ond yn cadw'r dolenni a'r cyfeiriadau at dystiolaeth. Byddwn yn cynnwys cyfarwyddyd pendant ynghylch y dyletswyddau statudol sy'n deillio o'r canllawiau. Byddwn yn ystyried y materion penodol pellach a grybwyllwyd gan yr ymatebwyr. Byddwn yn cyflwyno ymateb i'r Comisiynydd Plant ynghylch casglu data. Mae'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol yn ymdrin â rhai o'r materion a grybwyllwyd, a byddwn yn croesgyfeirio at y cynllun hwn yn y canllawiau terfynol.**

## 6. Dadansoddiad Llywodraeth Cymru

Cafwyd cytundeb cyffredinol ynghylch y cynigion i ddiogelu plant rhag camfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae hyn yn adlewyrchu'r gwaith ymgysylltu helaeth a wnaed yn 2017 a 2018, sydd wedi llywio datblygiad y canllawiau statudol.

Themâu allweddol sydd wedi deillio o'r ymatebion yw:

- Yr angen i olygu'r canllawiau er mwyn lleihau hyd y ddogfen a manylder yr wybodaeth a gynhwysir;
- Yr angen i gynnwys cyfarwyddyd penodol yn ymwneud â'r gofynion statudol sy'n deillio o'r canllawiau;
- Yr angen i ymdrin yn fanylach ag amrywiaeth o faterion penodol, er enghraifft gwybodaeth am y penderfyniad i beidio â chynnwys asesiad risg SERAF a materion yn ymwneud â darparu gwybodaeth yn newis iaith y plentyn neu'r person ifanc.

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y themâu uchod i gyd a bydd y canllawiau'n cael eu diwygio i adlewyrchu'r meysydd hyn.

Yn y naratif yn ymwneud â chwestiynau unigol uchod rydym wedi nodi'r materion hynny nad ydym yn bwriadu eu derbyn yn llwyr, ynghyd â'r sail resymegol dros hyn.

**Atodiad A – Rhestr o Ymatebwyr**

| Rhif | Cyfrinachol Ydy | / Nac ydy | Enw | Sefydliad/Ar ran |
|---|---|---|---|---|
| 1. | ✔ | | | |
| 2. | | ✔ | Chris Weaver | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| 3. | | ✔ | Dr Lorna Price | Rhwydwaith Diogelu GIG Cymru |
| 4. | | ✔ | Arfon Jones | Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| 5. | | ✔ | Mandy Nichols-Davies | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| 6. | | ✔ | Denise Moultrie | Arolygiaeth Gofal Cymru |
| 7. | | ✔ | Steve Davies | Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru |
| 8. | | ✔ | Michael Benjamin | Estyn |
| 9. | | ✔ | Emma Murphy | Cyngor Sir y Fflint |
| 10. | | ✔ | Sharon Lovell | NYAS Cymru |
| 11. | ✔ | | | |
| 12. | | ✔ | Comisiynydd Plant Cymru | |
| 13. | | ✔ | | Cyngor Sir Ceredigion |
| 14. | | ✔ | Victoria Andrews | Y Cyngor Meddygol Cyffredinol |
| 15. | | ✔ | Cari Watts | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru |
| 16. | | ✔ | Desmond Broster | Veezu – y gwasanaeth tacsis a llogi preifat mwyaf yn y rhanbarth |
| 17. | | ✔ | Damian Rees | Cyngor Sir Abertawe |
| 18. | ✔ | | | |
| 19. | ✔ | | | |
| 20. | | ✔ | Dr Carlene Firmin | Prifysgol Swydd Bedford, Y Rhaglen Diogelu Cyd-destunol |
| 21. | | ✔ | Y Barnwr Anrhydeddus Mererid Edwards | Barnwr Cyswllt y Gymraeg, Canolfan Cyfiawnder Sifil Caerdydd |
| 22. | ✔ | | | |
| 23. | | ✔ | James Dowler | Heddlu De Cymru |
| 24. | | ✔ | Ymateb ar y cyd gan Heddlu Gwent a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu | Ymateb ar y cyd gan Heddlu Gwent a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu |
| 25. | | ✔ | Menna Thomas | Barnardo's Cymru |
| 26. | | ✔ | Coleg Brenhinol Seiciatryddion Cymru | Coleg Brenhinol Seiciatryddion Cymru |
| 27. | ✔ | | | |